**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 9fed Ionawr 2025 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Robert Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Nigel Davies, Helen Evans, Eirlys James-Evans, Arwel Jones, Tina Jones, Alwen Thomas ac Iwan Thomas.
Clerc, Denfer Morgan

**249 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Michelle Davies ynghyd â'r Cynghorydd Sir Marc Davies am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**250 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 12fed Rhagfyr 2024.

**251 Materion yn Codi**

Llwybrau cyhoeddus: Cytunodd y Cynghorydd Arwel Jones dilyn i fyny gyda'r Warden Llwybrau materion yn ymwneud â chyflwr sawl llwybr y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod yn dlyn y storom diweddar.

Adeilad Ysgol Ciliau Parc: Cytunwyd ychwanegu rhywfaint at y sylwadau i'w hanfon at y Cyngor Sir fel a ganlyn:

*Hoffwn eich hysbysu fod Cyngor Cymuned Ciliau Aeron wedi trafod eich gwahoddiad ac wedi penderfynnu, yng nghyd-destun y gwasanaeth a ddarperir eisoes gan y Neuadd Bentref i'r gymuned, ei fod yn ffafrio gweld yr adeilad yn cael ei ddatblygu ar gyfer cefnogi cyfleon cyflogaeth yn yr ardal, megis gweithdai, swyddfeyddd a stiwdios.*

**252 Cyllideb 2025-26**

Rhoddwyd ystyriaeth i Gyllideb Drafft 2025-26. Trafodwyd yn enwedig sicrhau fod yna ddarpariaeth digonol ar gyfer y taliadau sydd ynghlwm gyda phrynu'r tir ar gyfer ymestyn y fynwent.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

i) cymeradwyo cyllideb o £6,000
ii) gosod praesept yn y swm o £6,000
iii) gosod Treth Gyngor o £13.97 ar gyfer eiddo Band D.

**253 Materion Cynllunio**

Rhoddwyd ystyriaeth i gais cynllunio *A240906 - Tyglyn Aeron Hotel, Ciliau Aeron. Variation of condition 10 -(playing of amplified music) and condition 11 (Public access to external areas for purpose of consuming food or drink)*

*planning application A230845.*

**Penderfyniad:** Cefnogi ymestyn yr oriau o ddarperir dan amodau 10 ac 11 y caniatad cynllunio tan 10:00yh ar bob diwrnod o'r wythnos a gwyliau banc, yn cynnwys noson Guto Ffowc, y Flwyddyn Newydd, Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tseineaidd.

**254 Mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Cilcennin**

Derbyniwyd diweddariad gan y Clerc ar y broses o brynu'r tir a nodwyd fod y gwaith cyfreithiol yn mynd yn ei flaen.

**255 Adroddiad Blynyddol 2023-24**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-24.

**256 Cyfle i gael Hyfforddiant**

Rhoddwyd ystyriaeth i gyfle i Aelodau dderbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad gan Bwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion a nodwyd y byddai gwahoddiad i dderbyn yr hyfforddiant ar-lein yn cyrraedd cyn bo hir.

**257 Llenwi'r Lle Gwag ar y Cyngor**

Nodwyd nad oedd deg etholwr wedi gwneud cais i alw am etholiad a **PHENDERFYNWYD** cychwyn y broses cyfethol drwy gyhoeddi'r hybysiad statudol priodol ar hysbysfyrddau'r gymuned ac ar y wefan, gyda dyddiad cau am geisiadau ar ddydd Gwener 17eg Ionawr.

**258 Unrhyw Fater Arall**

Gofynwyd i'r Clerc ddwyn y canlynol at sylw'r Cyngor Sir yn ardal Ciliau Aeron:

a) cael cadarnhad fod y ffyrdd y mae'r bws sy'n cludo plant o ardal Ciliau Aeron, Dihewyd a Mydroilyn i'r Ysgol Ardal newydd yn cael eu graeanu.
b) yr angen am arwydd 'anaddas i gerbydau llydan' ar waelod Heol y Graig
c) twll yn yr A4482 rhwng yr hen ysgol ac ochr gorllewinol y pentref
d) arwydd Ty Nant wrth ddod lawr o Dihewyd
e) golau ar eiddo yn amharu ar yrrwyr ar y ffordd rhwng y Bont Newydd a chyffordd yr A482
f) yr angen i drwsio'r arwydd ar gyffordd yr A482 a C104
g) cael cadarnhad fod perchnogion anneddle 'Ger-y-llan' wedi dilyn y broses iawn i'w ail-enwi yn 'Highfields'.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:35pm